# Arferion Effeithiol wrth Ddysgu ac Addysgu – Ffocws ar Addysgeg

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## Pam canolbwyntio ar addysgeg?

Nod sylfaenol canolbwyntio ar addysgeg yw sicrhau bod y profiadau addysgu a dysgu a gaiff ein dysgwyr, yn cael effaith gadarnhaol a chynaliadwy ar eu deilliannau ac ar eu lles. Rydym am ennyn mwy o ddiddordeb ymhlith ein dysgwyr, cryfhau eu cymhelliad a'u galluogi i fod yn fwy effeithiol, a hynny er mwyn sicrhau deilliannau gwell eu hansawdd.

## Sut y mae hyn  yn berthnasol i mi?

Mae'r model hwn wedi'i anfon at ymarferwyr ym mhob lleoliad dysgu yng Nghymru er mwyn helpu gyda'r gwaith o greu gweledigaeth gytûn am yr hyn a olygir wrth addysgu llwyddiannus a dysgu effeithiol – gweledigaeth gytûn am yr hyn yw addysgeg. Rydym am ysgogi pobl i ddechrau siarad am yr hyn a olygir wrth arferion addysgeg da, am yr elfennau y mae eu hangen er mwyn addysgu'n effeithiol a dysgu'n llwyddiannus, ac ynghylch sut y mae'r elfennau hynny'n cydblethu. Rydym yn awyddus hefyd i ddatblygu geirfa gyffredin, yn Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn i ymarferwyr fedru mynd ati i drafod â'i gilydd.

## Y Broses Ddysgu

Mae ymchwil i'r modd y mae'r ymennydd yn datblygu ac yn gweithio yn dangos bodystyried y gwahanol ddulliau y bydd dysgwyr yn eu defnyddio wrth ddysgu yn hanfodol er mwyn hyrwyddo'r broses.

Rydym am i ymarferwyr ddatblygu'r wybodaeth sydd ganddynt am y materion a ganlyn:

- y broses ddysgu ei hun;
- y broses ddysgu ar gyfer dysgwyr dwyieithog;
- datblygiad gwybyddol;
- sut mae'r ymennydd yn datblygu;
- prosesau meddwl.


Mae angen i ymarferwyr wybod am ddatblygiadau newydd ym maes addysgeg a chael cyfleoedd drwy gydol eu gyrfa i ddiweddaru'r wybodaeth sydd ganddynt.

## Myfyrio Ynghylch Addysgeg

Y sail i holl elfennau'r fframwaith yw'r broses barhaus o fyfyrio ynghylch  addysgeg er mwyn gwella deilliannau a lles yr unigolyn.

Rydym am i ymarferwyr:

- ddeall eu cyfrifoldeb dros eu datblygiad eu hunain;
- cyfrannu at ddatblygiad eraill drwy annog a symbylu trafodaeth am addysgeg;
- meithrin a datblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn ymchwilio;
- bod yn barod i herio hen arferion ac i fentro ac arloesi.




## Beth y mae angen i mi ei wneud?

Gwyddom fod y mwyafrif helaeth o ymarferwyr wedi ymrwymo i ddatblygu eu harferion proffesiynol a'u dealltwriaeth a'u gwybodaeth am addysgeg. Rydym yn gobeithio y byddwn, drwy ganolbwyntio ar addysgeg, yn creu cyfleoedd i ymarferwyr rannu a datblygu'r arferion da y gwyddom eu bod yn bodoli ledled y wlad. Bydd yn fodd hefyd i greu cyfleoedd i sefydlu partneriaethau mwy eang.   Rydym yn awyddus hefyd i gefnogi ymarferwyr i ymchwilio i ddatblygiadau proffesiynol perthnasol.

## Pam rydych chi wedi datblygu model ar gyfer addysgeg?

Mae'r model ar gyfer addysgeg yn dangos elfennau allweddol addysgeg effeithiol a'r amodau allweddol y mae eu hangen er mwyn i addysgeg effeithiol ffynnu. Yn ein cred ni, yn y man lle mae'r elfennau hyn yn cydblethu yr ydym yn sicrhau'r arferion proffesiynol mwyaf effeithiol ac felly'n sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr, a'u lles. Rydym am i ymarferwyr berchenogi'r model hwn.

## Diben y Model?

Diben y model hwn yw dangos pa mor bwysig yw hi i gydblethu'r holl elfennau y mae eu hangen, yn ein cred ni, er mwyn gwella deilliannau a lles y dysgwr.

## Strategaethau Addysgu

Er mwyn diwallu anghenion y dysgwr, dylai pob ymarferydd feddu ar ddealltwriaeth o amryfal ddamcaniaethau a modelau addysgu ac ar ystod o sgiliau.

Rydym am i ymarferwyr ddefnyddio'r wybodaeth broffesiynol hon er mwyn:

- creu cyfleoedd dysgu sy'n ennyn diddordeb y dysgwr ac yn ei herio er mwyn sicrhau ei fod yn dysgu cymaint ag y bo modd;
- cyfrannu at ddiwylliant o fyfyrio ynghylch addysgeg.

## Yr Amgylchedd Dysgu a Pherthynas ag Eraill

Mae sicrhau lles emosiynol a chorfforol y dysgwr yn allweddol ar gyfer dysgu effeithiol.

Mae angen i ddysgu ddigwydd mewn cyd-destun sy'n cydnabod ac yn datblygu lles y dysgwr.

Rydym am i ymarferwyr:

- bersonoli'r  dysgu;
- gwrando ar lais y dysgwr;
- creu cyfleoedd i'r dysgwr gael rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arno;
- cynnwys rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach yn y broses ddysgu;
- creu amgylchedd sy'n ysgogi ac yn ysbrydoli'r awydd i ddysgu.